**Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG, IEUENCTID A DIWYLLIANT**
**14 GORFFENNAF 2022**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd dros y we ddydd Iau 14 Gorffennaf 2022.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Teresa Carberry (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Bill Crease, Paul Cunningham, Gladys Healey, Andy Hughes, Gina Maddison, Dave Mackie, Ryan McKeown, Andrew Parkhurst, Carolyn Preece, David Richardson a Jason Shallcross.

**AELOD CYFETHOLEDIG:** Lynn Bartlett

**YMDDIHEURIADAU:** Mrs Wendy White

**CYFRANWYR:**
Y Cynghorydd Ian Roberts, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden, a’r Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd (ar gyfer eitem 9), a’r Uwch-ymgynghorydd Dysgu (Ymgysylltu) (ar gyfer eitem 10)

**YN BRESENNOL:**
Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd.

**6. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

**7. COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2022.

Cynigodd y Cynghorydd David Mackie bod y cofnodion yn gywir ac eiliodd y Cynghorydd Gladys Healey y cynnig hwnnw.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo’r cofnodion yn rhai cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

**8. RHAGLEN GWAITH I’R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU**

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu’r Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol, sef Atodiad 2 i’r adroddiad, ac eglurodd fod y ddogfen wedi’i diwygio ers y sesiwn briffio a gynhaliwyd yn y cyfarfod diwethaf. Rhoddwyd disgrifiad byr o’r eitemau ar y rhestr ar gyfer Medi, Hydref, Rhagfyr 2022 a Chwefror 2023. Cadarnhaodd yr Hwylusydd y cyflawnwyd yr holl gamau gweithredu o’r cyfarfod blaenorol fel y nodwyd yn Atodiad 2 i’r adroddiad Olrhain Camau Gweithredu.

Holodd y Cynghorydd Dave Mackie ynglŷn ag ansawdd cysylltiadau rhyngrwyd mewn ysgolion a’r prydau ysgol a ddarperid, a chadarnhaodd y Prif

Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) eu bod yn ymwybodol o'r anawsterau â'r rhyngrwyd a ddeilliai o Raglen Seilwaith Cenedlaethol Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus. Cadarnhaodd fod adran TG y Cyngor wrthi'n ceisio datrys y problemau ond dywedodd nad Sir y Fflint yn unig oedd yn eu cael. Rhoes y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) wybodaeth ynglŷn â'r newidiadau yn null gweithredu busnes NEWydd ar gyfer prydau bwyd, a'r gegin gynhyrchu ganolog yn Neuadd y Sir. Cytunodd y byddai'n gofyn i Reolwr Gyfarwyddwr NEWydd lunio adroddiad yn sôn am y problemau recriwtio'r oeddent yn eu cael, a'r newidiadau yn narpariaeth y prydau ysgol, gan gynnwys gwybodaeth ynglŷn â chyflwyno prydau bwyd am ddim i'r holl blant mewn dosbarthiadau babanod. Gofynnodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) a ellid cynnwys yr Adroddiad ar Falansau Ysgolion yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer cyfarfod mis Medi.

Holodd y Cynghorydd Gladys Healey ynglŷn â fêpio mewn ysgolion a soniodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) am drafodaethau a gafwyd yng nghyfarfodydd diweddar Ffederasiwn y Penaethiaid a'r Pwyllgor Ymgynghori Addysg. Roedd gwaith yn mynd yn ei flaen i ddarparu canllawiau polisi gwerth chweil i gynorthwyo athrawon i reoli'r sefyllfa mewn ysgolion, gan nad oedd dealltwriaeth gyflawn o'r goblygiadau i iechyd plant. Roedd y gwasanaeth Safonau Masnach yn rhan o hynny hefyd gan ei bod yn anghyfreithlon gwerthu nwyddau fêpio i blant dan ddeunaw oed, ac eglurodd y gweithdrefnau a gâi eu sefydlu i'r ysgolion gysylltu â Safonau Masnach i godi pryderon neu rannu gwybodaeth. Roedd hyn yn fater o bwys ac awgrymodd y gellid rhoi sylw iddo yn y gwanwyn fel rhan o'r cynllun Ysgolion Iach. Rhoes sicrwydd i'r Aelodau y cedwid llygad barcud ar hyn.

Holodd y Cynghorydd Andrew Parkhurst a ganiateid fêpio ar dir ysgol, a chadarnhaodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) na chaniateid hynny. Eid i'r afael â hyn ym mholisïau'r ysgolion ac roedd dan reolaeth ar hyn o bryd, ond mater ydoedd o ddeall y ddeddfwriaeth ynglŷn â'r hyn oedd yn dderbyniol ar dir ysgol.

Cynigiodd y Cynghorydd Paul Cunningham ddilyn yr argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad ac eiliodd y Cynghorydd Gladys Healey y cynnig hwnnw.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; ac

(c) Nodi'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r camau gweithredu oedd heb eu cwblhau.

## 9. CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR

Wrth gyflwyno'r adroddiad, esboniodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod strwythur y Prif Swyddogion wedi newid fis Hydref y llynedd a bod angen diwygio'r Cylch Gorchwyl i gyd-fynd â'r newidiadau hynny. Gofynnodd i'r aelodau

ddarllen Atodiad 2 ar dudalen 26 o’r adroddiad lle’r oedd y newidiadau wedi’u hamlygu’n goch er cymeradwyaeth y pwyllgor.

Cynigiodd Mrs Lynn Bartlett ddilyn yr argymhelliad a nodwyd yn yr adroddiad a eiliodd y Cynghorydd Gladys Healey y cynnig hwnnw.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor o blaid y diwygiadau arfaethedig yn ei gylch gorchwyl fel y’u nodwyd yn Atodiad 2.

## 10. PRESENOLDEB MEWN YSGOLION A GWAHARDDIADAU

Wrth gyflwyno’r adroddiad rhoes yr Uwch-ymgynghorydd Dysgu (Ymgysylltu) wybodaeth fanwl ynglŷn â lefelau presenoldeb a gwaharddiadau ledled y sir, sef y rhesymau pennaf am absenoldeb disgyblion rhwng Medi 2020 a Haf 2021. Rhoddwyd gwybodaeth ynglŷn â’r tueddiadau ar gyfer presenoldeb mewn ysgolion, lefelau gwaharddiadau dros dro a pharhaol, ond roedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi’r gorau i rannu gwybodaeth am y sefyllfa genedlaethol yn ystod y cyfnod hwn ac felly roedd y wybodaeth wedi’i chasglu gan ein hysgolion lleol a’i seilio ar ddata Systemau Rheoli Gwybodaeth Ysgol. Gofynnodd i’r Aelodau droi at Atodiad 1 ac eglurodd fod Llywodraeth Cymru wedi darparu marciau penodol i’r ysgolion eu defnyddio ar gyfer absenoldebau oherwydd Covid-19, ond fod llawer o’r absenoldebau wedi’u cofnodi â’r marc (i). Bu’n rhaid i’r Gwasanaeth Lles Addysg a thimau eraill weithio mewn ffyrdd gwahanol yn ystod y pandemig Covid-19 ac yn ei sgil, ac eglurodd y prosesau a’r gefnogaeth a ddarparwyd i ddysgwyr agored i niwed er mwyn cadw mewn cysylltiad a sicrhau eu bod mewn lle diogel fel y gallant ddal i gyfranogi o’u haddysg.

Rhoes yr Uwch-ymgynghorydd Dysgu wybodaeth am y gwaharddiadau Cyfnod Penodol a Pharhaol, a fu ar gynnydd mewn blynyddoedd diweddar, ac eglurodd y rhesymau am y gwaharddiadau hynny. Rhoddwyd gwybodaeth fanwl ynglŷn â sut roedd y tîm wedi newid ei ddull gweithredu er mwyn mynd ati i chwilio am broblemau a meithrin cyswllt â’r disgyblion dan sylw yn y gobaith o wella’r sefyllfa a’u galluogi i ddychwelyd i’r ysgol.

Yn dilyn nifer o gwestiynau gan Aelodau, rhoes yr Uwch-ymgynghorydd Dysgu wybodaeth fanwl ynglŷn â’r drefn gwaharddiadau, patrymau ymddygiad, y marciau’r oedd Penaethiaid yn eu defnyddio a phwy oedd yn gyfrifol am gofnodi absenoldebau. Roedd y pandemig wedi effeithio ar bresenoldeb disgyblion ac roedd Covid, iechyd meddwl a materion eraill yn peri pryder. Eglurodd y dull rhagweithiol o feithrin cyswllt â’r disgyblion hyn er mwyn deall y rhesymau dros eu habsenoldeb a darparu cefnogaeth i ddisgyblion a’u teuluoedd fel y gallant ddychwelyd i’r ysgol.

Wrth sôn am absenoldebau heb eu hawdurdodi, rhoes yr Uwch-ymgynghorydd Dysgu wybodaeth am drothwyon Llywodraeth Cymru a’r lefelau yn ysgolion Sir y Fflint. Rhagwelid y byddai’r sefyllfa’n gwella yn sgil dulliau gweithredu newydd y Gwasanaeth Lles Addysg o fis Medi ymlaen. Cadarnhaodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) y dymunai ysgolion sicrhau fod cyn lleied â phosib o absenoldebau heb eu hawdurdodi o safbwynt diogelu ac eglurodd y

systemau oedd ar waith mewn ysgolion, fel y Polisi Presenoldeb a oedd yn gofyn bod yr ysgol yn gwneud ymholiadau o ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb os nad oedd y rhieni wedi cysylltu â'r ysgol. Gallai Penaethiaid uwchgyfeirio absenoldebau heb eu hawdurdodi i'r Gwasanaeth Lles Addysg er mwyn cyflwyno rhybuddion talu cosb. Soniodd yr Uwch-ymgynghorydd Dysgu ynglŷn â'r cyfarfodydd misol a gynhelid â'r Tîm Addysg Heblaw yn yr Ysgol a rhoes fraslun o'r Strategaeth Ymyrraeth Gynnar a oedd â'r nod o helpu disgyblion a theuluoedd, eu cynorthwyo a'u cefnogi er mwyn cael gwell canlyniadau.

Holodd y Cynghorydd Andrew Parkhurst a oedd yno darged penodol ar gyfer Sir y Fflint gyfan yng nghyswllt absenoldebau heb eu hawdurdodi, yn hytrach nag ysgolion unigol. Dywedodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) eu bod yn cydnabod fod absenoldebau'n anochel, er mai'r dyhead fyddai cael dim o gwbl, ond ei bod yn bwysig fod ysgolion yn deall y rhesymau pam fod disgyblion yn absennol a bod y disgyblion hynny'n ddiogel.

Wrth ateb cwestiynau gan y Cynghorydd Carolyn Preece, dywedodd yr Uwch-ymgynghorydd Dysgu nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cael gwared â'r marc Covid eto, ond soniodd am rwydweithiau anffurfiol ledled y rhanbarth lle gellid rhannu gwybodaeth. Nid oedd y sefyllfa yn Sir y Fflint yn anarferol o gymharu ag awdurdodau eraill. Roedd ysgolion yn defnyddio'r un systemau cyffredin wrth gofnodi gwybodaeth am bresenoldeb, a oedd yn cynnwys cysylltiadau â'r holl asiantaethau fel y Gwasanaeth Ymgynnwys Ysgolion a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Esboniwyd fod gan yr awdurdod ddyletswydd gofal i ddarparu cefnogaeth ac addysg yn awtomatig i ddysgwyr a gaiff eu gwahardd. I'r rhai hynny a waherddid yn barhaol, cedwid mewn cysylltiad â'u teuluoedd i hybu eu dealltwriaeth o'r broses, a gallai hynny alluogi'r disgyblion i ddychwelyd i'r ysgol a bod y rhieni'n cael dewisiadau eraill fel anfon eu plentyn i ysgol arall. Roedd y Gwasanaeth Lles Addysg wedi recriwtio staff i feithrin cyswllt â phlant a dderbyniai addysg ddewisol yn y cartref a sicrhau bod y gwasanaeth yn fwy ymatebol. Rhoddwyd braslun o'r gwaith yr oedd y Grŵp Strategol yn ei wneud i feithrin dealltwriaeth o ddisgyblion a waharddwyd fwy na theirgwaith a'u cefnogi.

Dywedodd yr Arweinydd ac Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden yr arferai fod targed cyffredinol o 95% ar gyfer presenoldeb yn yr holl ysgolion a bod rhai ysgolion yn ei gyflawni ac eraill yn ei chael hi'n anodd, ac nid oedd hynny'n adeiladol. Roedd yno amrywiaeth o strategaethau eraill, gan gynnwys trosglwyddiadau wedi'u rheoli pan fyddai dechrau o'r newydd yn addas i ddisgyblion. Roedd hi'n hawdd pennu targedau ond nid oeddent yn adlewyrchu'r heriau'r oedd ysgolion yn eu goresgyn er mwyn eu cyflawni. Dywedodd yr Uwch-ymgynghorydd Dysgu mai lles a gweithio gyda theuluoedd oedd y man cychwyn bob amser wrth dargedu cymorth yn y ffordd fwyaf effeithiol. Wrth seilio gwaith y Gwasanaeth Lles Addysg yn fwy cadarn ar ddata a gwybodaeth a thargedu ymyriadau'n fwy manwl, roedd gobaith y byddai gwell canlyniadau i ddysgwyr, yn enwedig felly drwy hybu lefelau presenoldeb a lleihau gwaharddiadau.

Wrth ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Dave Mackie, dywedodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) na fyddai pennu targed ar hap yn unig yn arwain at welliannau ymhob ysgol. Rhoes sicrwydd i'r Aelodau fod gan ysgolion brosesau, polisïau a systemau cadarn yn eu lle a bod yr Uwch-ymgynghorydd Dysgu a'i dîm yn darparu lefel ychwanegol o graffu a chefnogaeth i ysgolion. Pe

byddai ysgolion yn methu â gwella'r sefyllfa gyda theulu penodol byddai'r Uwch-ymgynghorydd Dysgu a'i dîm yn camu i mewn i ddarparu'r ymyriadau a'r gefnogaeth. Eglurodd y newidiadau a wnaed yn y tîm i gynorthwyo ysgolion i gyflawni eu swyddogaethau statudol, a'r flwyddyn nesaf byddai modd dangos effaith y camau hynny.

Holodd y Cynghorydd Gina Maddison a oedd hyn yn dueddiad a ddaeth i'r amlwg cyn Covid, a dywedodd yr Uwch-ymgynghorydd Dysgu y bu Covid yn sefyllfa ddigynsail a effeithiodd ar bob rhan o'r wlad. O safbwynt lles, wrth geisio deall profiadau plant o hunan-ynysu, gweithio gartref, methu â gweld ffrindiau a dilyn eu trefn arferol fe nodwyd fod y rhain ymysg y rhesymau pam fod disgyblion yn gyndyn o fynd i'r ysgol. Byddai'r Pennaeth yn meddu ar y dystiolaeth yn unol â'r ymateb graddedig fel bod modd iddynt awdurdodi'r absenoldeb neu beidio, a byddant wedyn yn medru trafod y gwahanol ddewisiadau oedd ar gael i gefnogi'r disgybl dan sylw. Dywedodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) y bu presenoldeb yn dirywio mewn ysgolion uwchradd cyn Covid, fel y nodwyd yn Adroddiad Estyn yn 2019. Soniai disgyblion am orbryder a phroblemau iechyd meddwl bryd hynny, i'r fath raddau fel na ddymunai rhai ohonynt fynd i'r ysgol, ac roedd y pandemig wedi gwaethygu hynny.

Holodd y Cynghorydd Andy Hughes ynglŷn â'r swp cyntaf o rybuddion talu cosb, a chadarnhaodd yr Uwch-ymgynghorydd Dysgu mai'r Pennaeth oedd i benderfynu a ddylid cyflwyno rhybudd yn unol â'r Polisi Presenoldeb. Eglurodd sut roedd ei dîm yn gweinyddu a chyflwyno'r rhybuddion, a'u bod yn ymdrin â phob achos yn ôl ei rinweddau unigol.

Cynigiodd y Cynghorydd Gina Maddison ddilyn yr argymhelliad a nodwyd yn yr adroddiad ac eiliodd y Cynghorydd Carolyn Preece y cynnig hwnnw.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod yr Aelodau'n derbyn y data ynglŷn â phresenoldeb a gwaharddiadau yn ysgolion Sir y Fflint a'r camau a gymerodd y swyddogion i hybu cyfranogiad, diogelwch a lles ein plant a phobl ifanc; ac

(b) Bod yr Aelodau'n cydnabod fod y cyfnodau clo Covid-19 a chau'r ysgolion wedi effeithio ar y data a ddarparwyd.

## 11. CYFRYNGAU CYMDEITHASOL A DIOGELWCH AR Y RHYNGRWYD

Wrth gyflwyno'r adroddiad, soniodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) ei fod yn dod gerbron y pwyllgor bob blwyddyn, ac amlygodd rai o'r prif bwyntiau. Roedd disgyblion ac ysgolion yn wynebu heriau mawr ac roedd hi'n bwysig eu bod yn cadw'u hunain yn ddiogel ar-lein.

Gofynnodd i'r Aelodau droi at y prif bwyntiau yn yr adroddiad, a oedd yn cynnwys cyngor a chyfarwyddyd i ysgolion ynglŷn â Chyfryngau Cymdeithasol a Diogelwch ar y Rhyngrwyd. Roedd gwybodaeth ar y safle Hwb yn hyrwyddo Offeryn 360° *Safe Cymru* i ysgolion a dymunai'r Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) i'r holl ysgolion ei ddefnyddio. Soniwyd am Ddiwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel a'r hyfforddiant yr oedd y Gwasanaeth Gwella Rhanbarthol (GwE) yn ei ddarparu, ynghyd â'r ffaith fod yr holl ysgolion yn medru

defnyddio’r ffurflen bwlio ar-lein ac yn gwybod sut ddylid rhoi gwybod am hynny. Esboniodd y Prif Swyddog y systemau TG ar gyfer hidlo’r we, a rhoes wybodaeth am y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion a’r “Addewid i Fod yn Glên Ar-lein”.

Holodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) a oedd yr aelodau o’r farn y dylai’r adroddiad Cyfryngau Cymdeithasol a Diogelwch ar y Rhyngrwyd ddal i fod yn rhan o’r adroddiad blynyddol ynghylch Diogelu mewn Addysg, ynteu a ddylid ei gyflwyno fel adroddiad ar wahân i’r pwyllgor, neu’n wir ei gyflwyno i’r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.

Yn sgil hynny dywedodd rhai o’r Aelodau y dylai’r adroddiad fynd gerbron y Cydbwyllgor fel y gellid cael trafodaeth ehangach.

Gofynnwyd i’r aelodau anfon eu cwestiynau drwy e-bost at yr Ymarferydd Ysgolion Iach a’r Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid), a chadarnhawyd y rhennid yr holl gwestiynau a’r ymatebion iddynt ag aelodau’r pwyllgor.

Mynegodd y Cynghorydd Carolyn Preece bryderon ynglŷn â’r ail argymhelliad, gan ddweud y gallai fynd yn angof i raddau fel rhan o’r prif adroddiad. Rhoes y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) sicrwydd y byddai adran neilltuol ar gyfer hyn yn yr adroddiad Diogelu mewn Addysg.

Cynigodd y Cynghorydd Paul Cunningham ddilyn yr argymhelliad cyntaf a nodwyd yn yr adroddiad ac eiliodd y Cynghorydd Gladys Healey y cynnig hwnnw.

Cynigodd y Cynghorydd Paul Cunningham ddilyn yr ail argymhelliad a nodwyd yn yr adroddiad ac eiliodd y Cynghorydd Carolyn Preece y cynnig hwnnw.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod yr aelodau’n cadarnhau eu bod wedi cael sicrwydd digonol ynghylch y drefn o gefnogi a monitro ysgolion ynghylch cyfryngau cymdeithasol a diogelwch ar y rhyngrwyd.

(b) Bod yr aelodau’n cytuno y dylai’r adroddiad fod yn rhan o’r adroddiad blynyddol Diogelu mewn Addysg yn y dyfodol ac y dylid ei gyflwyno gerbron y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.

## 12. ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD DIWEDD BLWYDDYN

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) yr adroddiad, a oedd yn cynnwys crynodeb o’r cynnydd a wnaed erbyn diwedd 2021/22 wrth gyflawni blaenoriaethau Cynllun y Cyngor fel y bônt yn berthnasol i’r portffolio Addysg ac Ieuenctid. Roedd yr adroddiad yn un cadarnhaol dros ben ac yn dangos y cynnydd a wnaed wrth gyflawni’r blaenoriaethau. Gofynnodd i’r aelodau droi at dudalen 69 a oedd yn cynnwys yr amryw dargedau, y rhan helaeth ohonynt yn wyrdd ac ychydig yn oren.

Holodd y Cynghorydd Dave Mackie ynglŷn â'r targedau a chadarnhaodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) fod a wnelo'r rhain â phresenoldeb a gwaharddiadau, gan egluro na chasglwyd y targedau wedi i Lywodraeth Cymru roi'r mesuryddion perfformiad o'r neilltu oherwydd y pandemig. Cadarnhaodd y cofnodwyd data lleol yr awdurdod ynghylch presenoldeb a gwaharddiadau fel data heb eu gwirio a'u bod wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ar y sail honno, a chytunodd y byddai'n cyfleu sylwadau'r Cynghorydd Mackie i'r tîm. Nid oedd Llywodraeth Cymru'n mynnu bod yr awdurdod yn pennu targedau, ond dywedodd fod y rhain wedi'u gosod ar gyfer y flwyddyn gyfredol ac y byddai'r adroddiad cryno'n rhoi'r cyd-destun.

Diolchodd y Cynghorydd Carolyn Preece i'r tîm am adroddiad trylwyr ac ardderchog, a rhoes glod i'r tîm, yr ysgolion a'r staff am y gwaith a wnaed yn ystod y pandemig ac yn ei sgil. Cytunodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) y byddai'n cyfleu'r diolchiadau i'r tîm a'r ysgolion.

Dywedodd y Cynghorydd Paul Cunningham fod meddu ar y wybodaeth yn galluogi craffu effeithiol, ac edrychai ymlaen at adroddiadau â mwy o wybodaeth wrth i bethau fynd yn ôl i'r arfer ar ôl y pandemig. Roedd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) yn falch bod aelodau'r pwyllgor yn craffu ar hyn gan ei bod yn broses bwysig. Dywedodd eto y gallai unrhyw aelod gysylltu â hi unrhyw bryd i drafod unrhyw bryderon.

Cytunodd y Cynghorydd Gladys Healey â sylwadau'r Cynghorydd Mackie a mynegodd bryderon dybryd ynghylch tai a thlodi. Yn yr hinsawdd oedd ohoni gyda biliau'n mynd yn uwch, byddai hyn yn gwaethygu problemau tlodi, er ei bod yn deall y wasgfa ar gyllidebau. Gofynnodd a fedrai'r Arweinydd gyflwyno achos i Lywodraeth Cymru am ragor o arian i gefnogi pobl mewn tlodi.

Dywedodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) fod Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y pwyllgor yn cynnwys Cynllun newydd y Cyngor, a bod holl bortffolios y Cyngor yn cyfrannu at Dlodi. Soniodd am y cynllun Tlodi Plant, *Well Fed* a'r taliadau dewisol ychwanegol yr oedd y Cabinet wedi'u cymeradwyo yn ddiweddar. Roedd yno gyfrifoldeb corfforaethol i fynd i'r afael â'r effeithiau ar blant a theuluoedd, ond roedd rhai o'r problemau y tu hwnt i reolaeth y Cyngor.

Rhoes yr Arweinydd ac Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden sicrwydd i'r aelodau eto ei fod yn cyflwyno'r ddadl ynglŷn â hyn i Lywodraeth Cymru'n gyson. Cytunodd â sylwadau'r Prif Swyddog ynglŷn â'r ymateb corfforaethol, a rhoes glod i'r ysgolion am y gwaith arwyddocaol yr oeddent yn ei wneud gyda phethau fel gwisg ysgol a chlybiau brecwast, a oedd yn galluogi plant i gael brecwast gwerth chweil ac wedi gwella lefelau presenoldeb. Soniodd am gynlluniau corfforaethol y Cyngor yn hyn o beth yn ogystal â'r cynlluniau rhagorol yr oedd y sector gwirfoddol yn eu darparu, a dywedodd y byddai hyn oll yn arwain at y canlyniadau gorau posib.

Cynigiodd y Cynghorydd Dave Mackie ddilyn yr argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad ac eiliodd Mrs Lynn Bartlett y cynnig hwnnw.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

(a) Bod y Pwyllgor yn croesawu'r cynnydd a wnaed ac yn ffyddiog y cyflawnid blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2021/22;

(b) Bod y Pwyllgor yn croesawu'r perfformiad cyffredinol yn ôl dangosyddion perfformiad Cynllun y Cyngor 2021/22; a

(c) Bod y pwyllgor yn fodlon ar yr esboniadau a roddwyd ar gyfer y meysydd lle bu tanberfformiad.

## 13 AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 15.49pm)

…………………………

**Y Cadeirydd**